Rhif: **WG21948**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

## Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Ymgynghoriad ar reoliadau dyddiadau tymhorau ysgol

Cynigion ar gyfer rheoliadau ar gyfer y broses ymgynghori i'w dilyn cyn i Weinidogion Cymru ddefnyddio eu pwerau cyfarwyddo mewn perthynas â dyddiadau tymhorau ysgol

Dyddiad cyhoeddi: **Mai 2014**

# Ymgynghoriad ar reoliadau dyddiadau tymhorau ysgol

**Cynulleidfa**

Awdurdodau lleol yng Nghymru gan gynnwys eu priod gyfarwyddwyr Addysg; cyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig yng Nghymru; awdurdodau esgobaethol; undebau athrawon; ESTYN; Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru; Comisiynydd Plant Cymru.

**Trosolwg**

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd i ymgynghoriad ar gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Rheoliadau i ddarparu ar gyfer rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am ddyddiadau tymhorau ysgol sydd wedi'u pennu ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru.

**Camau i'w cymryd**

Dim – er gwybodaeth yn unig.

**Rhagor o wybodaeth**

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Cangen Llywodraethu a Threfniadaeth Ysgolion
Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 6051
Ffacs: 029 2080 1044
e-bost: SMED2@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol**

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau

**Dogfennau cysylltiedig**

Deddf Addysg 2002 (Saesneg yn unig)
www.legislation.gov.uk/ukpga/2002/32/contents

Deddf Addysg (Cymru) 2014
http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=7186

*Dyddiadau tymhorau ysgol: Cynigion ar gyfer diwygio'r ffordd y mae dyddiadau tymhorau ysgol yn cael eu pennu ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru* (2012)
www.wales.gov.uk/consultations/education/schooltermdates/;jsessionid=F025D1B4BFDE587FB4AAFBECA33F5498?skip=1&lang=cy

ISBN digidol 978 1 4734 1430 3
© Hawlfraint y Goron 2014
WG21948

# Cynnwys


1. Cefndir 2

2. Yr ymgynghoriad 4

3. Golwg gyffredinol ar yr ymatebion i’r ymgynghoriad 5

4. Rhestr o ymatebwyr 11

# 1. Cefndir

Cefndir y cynigion ar gyfer Rheoliadau perthnasol i'r broses ymgynghori i'w dilyn cyn i Weinidogion Cymru ddefnyddio pwerau cyfarwyddo yng nghyswllt dyddiadau tymhorau ysgol.

1.1 Cyflwynwyd Deddf Addysg (Cymru) ("y Ddeddf") gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 1 Gorffennaf 2013 a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar y 12fed Mai 2014.

1.2 Mae'r Ddeddf yn gwneud nifer o newidiadau pwysig i'r trefniadau deddfwriaethol presennol o ran sut mae dyddiadau tymhorau ysgol yn cael eu pennu ar gyfer yr holl ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos ynglŷn â'r cynigion ar gyfer dyddiadau tymhorau ysgol yn y Ddeddf, rhwng 3 Medi 2012 a 26 Tachwedd 2012. Gellir gweld crynodeb o'r ymatebion yn:

http://wales.gov.uk/consultations/education/schooltermdates/?skip=1&lang=cy

1.3 Mae'r newidiadau arfaethedig yn golygu bod awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig yn cadw'r ddyletswydd i bennu dyddiadau tymhorau ysgol, ond bod dyletswydd newydd yn cael ei gosod arnynt i gydweithio a chydlynu â'i gilydd wrth bennu dyddiadau tymhorau, fel bod y dyddiadau a gaiff eu pennu yr un fath neu mor debyg â phosibl.

1.4 Mae Llywodraeth Cymru yn credu y bydd hyn yn arwain at bennu yr un dyddiadau tymhorau ym mhob ysgol a gynhelir yng Nghymru. Fodd bynnag, er gwaethaf eu hymdrechion gorau, mae'n bosibl na fydd awdurdodau lleol na chyrff llywodraethu ysgolion yn gallu cytuno ar ddyddiadau tymhorau. Os bydd hyn yn digwydd, neu os bydd angen diwygio'r dyddiadau tymhorau y cytunwyd arnynt, mae'r Ddeddf yn rhoi i Weinidogion Cymru y pŵer i ymyrryd a dweud wrth awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig beth ddylai'r dyddiadau tymhorau ysgol fod.

1.5 Mae'r newidiadau hefyd yn golygu y bydd Gweinidogion Cymru yn gallu addasu dyddiadau tymhorau ysgol sydd wedi'u cysoni er mwyn newid dyddiadau rhai ardaloedd neu ysgolion, neu newid dyddiadau pob ysgol yng Nghymru.

1.6 Fodd bynnag, cyn i Weinidogion Cymru ddefnyddio eu pwerau ar gyfer pennu dyddiadau tymhorau, mae'r Ddeddf yn datgan bod rhaid iddynt gynnal ymgynghoriad priodol i ddechrau. Hefyd, mae'r Ddeddf yn rhoi i Weinidogion Cymru bŵer llunio rheoliadau sy'n galluogi iddynt wneud darpariaeth bellach am y broses ymgynghori, fel sy'n angenrheidiol yn eu barn hwy. Gall hyn gynnwys materion fel y canlynol:

- hyd yr ymgynghoriad;

- gyda phwy yr ymgynghorir; a
- dull yr ymgynghoriad.

## Cynigion yr ymgynghoriad

1.7 Roedd yr ymgynghoriad yn amlinellu 2 gynnig ynghylch y canlynol:

a) yr ymgynghoriad i gael ei gynnal pan mae Gweinidogion Cymru'n cynnig defnyddio eu pwerau am nad yw dyddiadau tymhorau wedi'u cysoni gan awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig; a

b) yr ymgynghoriad i gael ei gynnal pan mae dyddiadau tymhorau wedi'u cysoni, ond bod Gweinidogion Cymru'n credu y dylid addasu dyddiadau rhai o'r ysgolion neu'r ysgolion i gyd.

1.8 Cynhaliodd swyddogion Llywodraeth Cymru, ar ran Gweinidogion Cymru, ymgynghoriad ar y we ar y cynigion hyn am ychydig dros 11 wythnos waith rhwng 4 Rhagfyr 2013 a 21 Chwefror 2014.

1.9 Mae copi o'r dogfennau ymgynghori ar gael yn:

http://wales.gov.uk/consultations/education/school-term-dates-regulations/?skip=1&lang=cy

# 2. Yr ymgynghoriad

## Y broses ymgynghori

2.1 Roedd y ddogfen ymgynghori a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar ei gwefan yn gofyn am adborth am gynigion yr ymgynghoriad.

2.2 Gofynnwyd i'r ymatebwyr bwyso a mesur cwestiynau penodol am y cynigion, a chawsant eu hannog i godi unrhyw bwyntiau eraill a oedd yn angenrheidiol yn eu barn hwy. Gofynnwyd iddynt hefyd ystyried effaith bosibl y cynigion ar faterion yn ymwneud â chydraddoldeb.

2.3 Cafodd y ddogfen ymgynghori ei chyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru a chafodd yr ymarfer ymgynghori ei hyrwyddo drwy'r post electronig i awdurdodau lleol ac awdurdodau esgobaethol, cyrff llywodraethu ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, undebau athrawon a phartïon eraill â diddordeb, fel Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (ESTYN) a Llywodraethwyr Cymru.

## Yr ymatebion a dderbyniwyd

2.4 Cafwyd 34 ymateb i gyd i'r ymgynghoriad. Daeth un o'r ymatebion o'r tu allan i Gymru, gan Wasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig. Roedd yn adlewyrchu safbwyntiau nifer o gyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac awdurdodau esgobaethol yng Nghymru a ymatebodd i'r ymgynghoriad.

2.5 Gellir rhoi'r 34 ymatebydd yn y categorïau canlynol:

| | |
|---|---|
| Awdurdodau Lleol | 4 |
| Awdurdodau Esgobaethol | 2 |
| Undebau | 8 |
| Ysgolion/Pennaeth | 5 |
| Cyrff cynrychioladol a chyrff eraill | 5 |
| Unigolion/dienw | 10 |

## Canfyddiadau'r ymgynghoriad

2.6 Ceir dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ar y tudalennau nesaf.

2.7 Nid yw'r adroddiad hwn yn rhoi sylw i unrhyw ymatebion nad oeddent yn rhan o gwmpas yr ymgynghoriad hwn. Pan oedd hynny'n briodol, rhoddwyd yr ymatebion hyn i'r gangen berthnasol yn yr Adran Addysg a Sgiliau, er mwyn gallu eu hystyried a bwrw ymlaen â hwy.

# 3. Golwg gyffredinol ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad

3.1 Roedd dogfen yr ymgynghoriad yn gofyn 2 gwestiwn penodol am y cynigion ar gyfer rheoliadau perthnasol i'r ymgynghoriad i'w gynnal gan Weinidogion Cymru cyn defnyddio eu pwerau i bennu dyddiadau tymhorau ysgol, yn ogystal â 2 gwestiwn mwy cyffredinol.

3.2 Oni nodir yn wahanol, yn yr adroddiad hwn, mynegir canrannau fel mesur o'r holl ymatebwyr. Mae pob canran o'r fath wedi cael ei thalgrynnu i fyny neu i lawr i'r rhif cyfan agosaf.

**C1. Ydych chi'n cytuno gyda'n cynigion ar gyfer y broses ymgynghori sydd i gael ei chynnal pan nad yw dyddiadau tymhorau ysgol yn gyson gan awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig? (Gweler paragraffau 4.1 i 4.4 yn adran 4).**

3.3 O'r 34 ymateb, roedd 20 yn cytuno â'r cynnig, roedd 4 yn anghytuno, nid oedd 2 yn cytuno nac yn anghytuno, ac ni chafwyd unrhyw sylw uniongyrchol gan 8.

3.4 Mae hyn yn golygu bod 59% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig, a dim ond 12% oedd yn anghytuno ag ef.

3.5 Fe wnaeth sawl ymatebydd a oedd yn cytuno â'r cynnig hwn – yn ogystal ag ambell un a oedd yn anghytuno – wneud sylw am yr egwyddor o gysoni dyddiadau tymhorau ysgol. Roedd y mater hwn wedi cael sylw mewn ymgynghoriad cynharach ar gynigion i gyflwyno newidiadau deddfwriaethol i bennu dyddiadau tymhorau. Mae manylion yr ymgynghoriad hwn i'w gweld yn:

http://wales.gov.uk/consultations/education/schooltermdates/?skip=1&lang=cy

3.6 Ymhlith y rhai a oedd yn anghytuno, ymatebodd un awdurdod lleol drwy ddweud nad oedd unrhyw *"eglurder ynghylch y meini prawf y byddai'r Gweinidog yn cadw atynt wrth wneud penderfyniad terfynol"* ac aeth ymlaen i ofyn *"Ydi barn Llywodraeth Cymru yn bwysicach na barn leol?"*

3.7 Ymhlith y sylwadau gan y rhai a oedd yn cytuno â'r cynnig hwn roedd Llywodraethwyr Cymru, a ddywedodd *"Er ein bod yn rhagweld mai dim ond o dan amgylchiadau prin ac ati y bydd y pwerau cyfarwyddo'n cael eu defnyddio, mae'r broses ymgynghori fel mae wedi'i datgan yn ymddangos yn briodol".*

**Ymateb**

3.8 Y Ddeddf sy'n ei gwneud yn ddyletswydd i Weinidogion Cymru gynnal ymgynghoriad "priodol" cyn defnyddio eu pwerau i bennu dyddiadau tymhorau

ysgol. Dim ond darparu'r manylion mae'r rheoliadau, fel bod y partïon sydd â diddordeb yn gwybod beth i'w ddisgwyl o ran ymgynghoriad.

3.9 Mae'n rhaid defnyddio'r ymgynghoriad, a'r defnydd o bwerau Gweinidogion Cymru, mewn ffordd rhesymol; byddai gwneud fel arall yn arwain at risg o herio cyfreithiol o dan gyfraith gyhoeddus. Mae hyn yn golygu y byddai'n rhaid i bob ymateb i bob ymgynghoriad ynghylch cynigion Gweinidogion Cymru ar gyfer dyddiadau tymhorau gael ystyriaeth briodol.

**C2. Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer y prosesau ymgynghori amrywiol sydd i gael eu cynnal pan mae tymhorau ysgol wedi'u cysoni, ond bod Gweinidogion Cymru'n credu y dylid addasu dyddiadau rhai o'r ysgolion neu'r ysgolion i gyd. (Gweler paragraffau 4.5 i 4.18 yn adran 4).**

3.10 Profodd yr ail gynnig hwn yn fwy dadleuol na'r un cyntaf. Roedd 11 ymatebydd yn cytuno â'r cynnig, roedd 9 ymatebydd yn anghytuno, nid oedd 6 yn cytuno nac yn anghytuno ac ni chafwyd sylw uniongyrchol gan 8.

3.11 Mae hyn yn golygu bod 32% yn cytuno â'r cynnig, 26% yn anghytuno, 18% ddim yn cytuno nac yn anghytuno a 24% heb wneud unrhyw sylw.

3.12 Unwaith eto, roedd Llywodraethwyr Cymru yn gefnogol i'r cynnig, gan ddweud:

" *….Mae'n ymddangos yn ddoeth caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd ar gyfer amgylchiadau annisgwyl os byddant yn codi, ar ôl cadarnhau dyddiadau'r tymhorau. Er hynny, nid ydym yn disgwyl i hyn ddigwydd yn aml".*

3.13 Roedd yr ymatebion a oedd yn anghytuno â'r cynnig hwn yn cynnwys rhai gan undebau athrawon, a fynegodd bryderon am ddefnydd posibl o bwerau Gweinidogion Cymru i orfodi athrawon i weithio dyddiau addysgu yn lle'r rhai a "gollwyd" oherwydd argyfyngau neu amgylchiadau eraill. Hefyd, roedd rhai undebau'n bryderus y gallai'r defnydd o bwerau Gweinidogion Cymru arwain at newid ym mhatrymau gwaith yr athrawon a'u hawl i wyliau, yn groes i'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol.

3.14 Ymhlith y pryderon eraill a godwyd roedd poeni y gallai trefniadau a oedd wedi cael eu gwneud gan rieni neu athrawon ac a oedd yn cynnwys talu ymlaen llaw - fel gwyliau teulu ac ati – gael eu drysu wrth i Weinidogion Cymru addasu dyddiadau tymhorau heb ymgynghoriad 12 wythnos llawn ac o leiaf blwyddyn o rybudd. Er enghraifft, dywedodd yr NASUWT:

*" ….mae methu cydnabod yr angen am roi rhybudd o newidiadau i ddyddiadau tymhorau ysgol ... yn gamgymeriad mawr*".

3.15 Hefyd dywedodd rhai ymatebwyr na ddylai Gweinidogion Cymru gael y "gair" olaf ar bennu dyddiadau tymhorau ar gyfer ysgolion ffydd gwirfoddol a gynorthwyir.

**Ymateb**

3.16 Os nad oedd gan Weinidogion Cymru bŵer/hyblygrwydd i addasu dyddiadau tymhorau yn gyflym lle'r oedd hynny'n briodol, byddent yn agored i wynebu beirniadaeth pe bai sefyllfa'n codi a bod angen newid o'r fath a ninnau'n methu ymateb yn brydlon i atal argyfwng.

3.17 Does dim agenda gudd i ddiwygio'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol a hawliau athrawon i wyliau yng Nghymru. Beth bynnag, nid yw'r rheolaeth ar y Ddogfen hon wedi'i ddatganoli i Gymru. Yr Ysgrifennydd Gwladol yn Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol amdani.

3.18 O dan y Rheoliadau Addysg (Diwrnod Ysgol a Blwyddyn Ysgol) (Cymru), os collir sesiynau ysgol, nid oes raid i'r ysgol wneud iawn am sesiynau sydd wedi'u colli oni bai ei bod yn rhesymol gwneud hynny. Os bydd Gweinidogion Cymru'n penderfynu cau ysgol oherwydd amgylchiadau na ellid eu rhagweld, nid yw'n debygol y bydd yn rhesymol disgwyl i athrawon neu deuluoedd golli arian neu wyliau sydd wedi'i drefnu, ac felly ni ellid disgwyl i ysgol wneud iawn am amser a "gollwyd".

3.19 Mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd gyfreithiol i ymarfer eu pwerau mewn ffordd resymol – os na fyddant yn gwneud hynny, gellid eu herio yn y llysoedd.

3.20 Mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd yn edrych a oes unrhyw brosesau ymgynghori wedi gweithio'n ddidrafferth fel rhan o'r adolygiad cyffredinol o weithredu cysoni dyddiadau tymhorau ysgol o dan y Ddeddf.

**C3. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

**Byddem yn croesawu eich barn am effaith bosibl ein cynigion ar y canlynol:**

**a) anabledd**
**b) hil**
**c) rhywedd ac ailbennu rhywedd**
**d) oedran**
**e) crefydd a chred a diffyg cred**
**f) cyfeiriadedd rhywiol**
**g) hawliau dynol**

3.21 Roedd nifer o ymatebwyr naill ai wedi dewis peidio â gwneud sylw neu wedi dweud eu bod naill ai ddim yn gweld unrhyw broblemau o ran cydraddoldeb neu ddim yn teimlo y byddai'r cynigion yn cael effaith "negyddol" neu "anghyfartal". Roedd hyn yn wir am 23 o'r 34 ymateb a ddaeth i law, sy'n 68% o'r holl ymatebion.

3.22 Dywedodd ESTYN nad oedd y cynigion yn *"debygol o effeithio ar unrhyw grŵp penodol yn anghyfartal".*

3.23 Pan oedd ymatebwyr yn gweld problemau posibl, roedd y rheini fel arfer yn ymwneud â'r effaith bosibl ar ysgolion ffydd a chredoau crefyddol/ffydd, gan gynnwys rhai grwpiau ffydd nad ydynt yn rhai Cristnogol. Codwyd hyn gan 9 o'r 34 ymatebydd, sy'n 26% o'r holl ymatebion.

3.24 Roedd y pryderon yn cynnwys yr effaith bosibl ar ysgolion "ffydd" gwirfoddol a gynorthwyir ac unwaith eto dewisodd rhai ymatebwyr leisio eu gwrthwynebiad i'r egwyddor o alluogi i Weinidogion Cymru bennu dyddiadau tymhorau os nad oeddent wedi'u cysoni – yn enwedig adeg y Pasg. Dywedodd un ymatebydd y byddai *"effaith anghyfartal ... ar ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir".*

3.25 Roedd y sylwadau a oedd yn mynegi pryderon am ffydd/cred ar wahân i ffydd Gristnogol yn cynnwys *"dylid rhoi ystyriaeth i wyliau/arferion crefyddol wrth bennu dyddiadau tymhorau, er mwyn ystyried y boblogaeth gynyddol amlddiwylliannol a geir yng Nghymru".*

**Ymateb**

3.26 Nid oedd y rhan fwyaf o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn gweld unrhyw broblemau cydraddoldeb posibl gyda'r cynigion, neu nid oeddent yn teimlo y byddai'r cynigion yn cael effaith negyddol neu anghyfartal.

3.27 Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r materion a godwyd o ran ffydd/credoau crefyddol, gan gynnwys rhai nad ydynt yn Gristnogol. Ar y cyfan, mae'r rhain yn ymwneud â phryderon y bydd y cynigion i gysoni dyddiadau tymhorau ysgol yn effeithio ar ofynion crefyddol ysgolion ffydd.

3.28 Os bydd angen i Weinidogion Cymru ddefnyddio'u pwerau cyfarwyddo, byddai ymgynghoriad priodol yn cael ei gynnal ar y dyddiadau a gynigir ar gyfer y tymhorau. Bydd modd i bryderon ysgolion ffydd neu gredoau ar wahân i Gristnogaeth ynghylch y dyddiadau hynny gael eu codi mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwnnw.

**C4. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech chi godi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y lle hwn er mwyn adrodd amdanynt.**

3.29 O'r 34 ymatebydd, manteisiodd 21 (62%) ar y cyfle i wneud rhagor o sylwadau.

3.30 Nid oedd rhai o'r materion a godwyd yn dod o dan gwmpas yr ymgynghoriad hwn. Ni roddir sylwadau ar y materion hynny yn y fan hon bob amser, ond maent wedi cael eu pasio, lle bo hynny'n briodol, i'r gangen berthnasol yn yr Adran Addysg a Sgiliau.

3.31 Manteisiodd 9 ymatebydd ar y cyfle i wneud sylwadau cyffredinol gefnogol, fel *"mae'r cynigion yn ymateb priodol"* ac *"mae safoni dyddiadau gwyliau ysgolion yn angenrheidiol".*

3.32 Awgrymodd 4 ymatebydd arall y dylid newid patrwm y flwyddyn ysgol, gan gynnwys rhoi terfyn ar y model 3 thymor. Cafwyd rhai sylwadau ar faterion sydd y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn, fel dirwyon posibl i rieni am fynd â'u plant allan o'r ysgol yn ystod y tymor.

3.33 Dewisodd rhai ymatebwyr gyflwyno sylw ar a/neu leisio eu gwrthwynebiad i'r egwyddor o gysoni dyddiadau tymhorau ysgol. Roedd y mater hwn wedi cael sylw mewn ymgynghoriad cynharach ar gynigion i gyflwyno newidiadau deddfwriaethol i bennu dyddiadau tymhorau. Roedd hyn yn cynnwys 3 sylw gan y rhai a oedd yn cynrychioli ysgolion ffydd a chyrff crefyddol eraill.

3.34 Roedd un ymatebydd o'r farn bod y cynigion presennol ar gyfer dyddiadau'r tymhorau'n ei gwneud yn anos i rieni sy'n gweithio gael gwyliau gyda'u plant yn ystod gwyliau ysgol, ac y byddai'r mwyafrif *"yn y rhan fwyaf o achosion yn cael eu gwasanaethu'n well gan wahanol awdurdodau lleol gyda gwahanol amseroedd ar gyfer y tymhorau".*

3.35 Manteisiodd nifer o'r undebau ar y cyfle hefyd i fynegi eu pryderon eto am athrawon yn cael eu gorfodi i wneud iawn am ddyddiau a gollwyd ac ati, sy'n cael ei drafod ym mharagraffau 3.13 i 3.20 uchod.

**Ymateb**

3.36 Gellir gweld oddi wrth yr ymateb i'r ddau gynnig ymgynghori sy'n sail i'r cynlluniau ar gyfer cysoni dyddiadau tymhorau ysgol (sy'n cael sylw yng nghwestiynau 1 – 2 yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad) bod mwy o gefnogaeth nac o anghytuno yng nghyswllt y cynigion hyn i gyflwyno Rheoliadau sy'n darparu ar gyfer ymgymryd â phroses ymgynghori briodol cyn defnyddio pwerau Gweinidogion Cymru.

3.37 Croesewir yr awgrymiadau i ystyried symud oddi wrth y model 3 thymor, neu addasu hyd y gwyliau presennol (e.e. byrhau tymor yr haf a chael gwyliau hanner tymor hirach). Fodd bynnag, gellid dweud y byddai gweithredu awgrymiadau o'r fath yn addasu patrwm y flwyddyn ysgol, ac nid yw hynny'n cael ei ystyried fel rhan o'r cynigion hyn.

3.38 Fel yr eglurwyd mewn perthynas ag ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad ar effaith ar gydraddoldeb ym mharagraff 3.28, dylid rhoi sylw i anghenion ysgolion "ffydd" a chredoau nad ydynt yn Gristnogol fel rhan o'r broses ymgynghori.

3.39 O ran pryderon yr undeb am athrawon yn cael eu gorfodi i weithio yn lle dyddiau ysgol a gollir ac ati, os bydd Gweinidogion Cymru'n penderfynu cau ysgol oherwydd amgylchiadau na ellid eu rhagweld, nid yw'n debygol y bydd yn rhesymol disgwyl i athrawon/ysgolion wneud hyn. Hefyd, nid oes posibilrwydd y bydd y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol yn cael ei haddasu oherwydd y cynigion hyn. (Gweler paragraffau 3.17-19 uchod).

3.40 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl adolygu’r ffordd y mae'r broses o bennu dyddiadau tymhorau ysgol yn gweithio ar ôl blwyddyn ysgol 2016-17, ac y bydd yn adrodd yn ôl am hynny yn ystod tymor yr hydref 2018.

## 4. Rhestr o ymatebwyr

4.1 Ysgol Gynradd Gatholig St John Lloyd, Caerdydd

4.2 Ysgol Llanilltud Fawr, Pen-y-bont ar Ogwr

4.3 James Mansfield

4.4 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau

4.5 Esgobaeth Minevia

4.6 Raymond Greenwood

4.7 Ysgol Gynradd Catwg, Castell-nedd Port Talbot

4.8 Sgowtiaid Ceredigion

4.9 Ysgol Pencae, Conwy

4.10 Damian Gillespie

4.11 Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT) Cymru

4.12 Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

4.13 Cymdeithas Genedlaethol y Penaethiaid (NUT) Cymru

4.14 Gemma Emmanuel

4.15 Rhiannon Mainwaring

4.16 Llywodraethwyr Cymru

4.17 Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

4.18 Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

4.19 Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr (Cymru)

4.20 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

4.21 Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig

4.22 Estyn

4.23 Undeb Prifysgolion a Cholegau (Cymru)

4.24 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)

4.25 Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) Cymru

4.26 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) Cymru

4.27 Len Hough

Yn ogystal â'r ymatebwyr uchod, roedd 7 ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw.